Mae'n bosibl bod y ddogfen hon yn cynnwys cyngor cyfreithiol a roddwyd yn gyfrinachol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n bosibl ei fod yn ddarostyngedig i fraint proffesiynol cyfreithiol.

# Y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

## Crynodeb o Faterion sy'n ymwneud â Chymhwysedd Deddfwriaethol

### Cefndir

1. Mae'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) wedi'i gyflwyno i'r Llywydd gan Mick Antoniw AC, yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil, i alluogi'r Llywydd i ddatgan ei barn ynghylch a yw'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf"), a Rheol Sefydlog 26.4, rhaid gwneud y datganiad hwn pan gyflwynir y Bil, neu cyn hynny.

2. Ar ôl cael cyngor gan gynghorwyr cyfreithiol y Cynulliad, mae'r Llywydd wedi penderfynu bod y Bil, yn ei barn hi, yn dod o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol. Fodd bynnag, mae'r Llywydd o'r farn ei bod yn briodol dwyn rhai materion sy'n ymwneud â chymhwysedd, y bu'n eu hystyried wrth ddod i farn, i sylw'r Pwyllgor a fydd yn craffu ar y Bil, fel y gall benderfynu a ddylid archwilio'r materion hyn ymhellach fel rhan o'r broses graffu.

### Trosolwg o'r Bil

3. Diben y Bil yw sicrhau bod person sy'n talu iawndal i ddioddefwr clefyd sy'n ymwneud ag asbestos hefyd yn gorfod ad-dalu, i Weinidogion Cymru, y costau a ddaeth i ran y GIG yng Nghymru wrth ddarparu gofal i'r dioddefwr. Rhaid gwneud hyn hefyd os caiff yr iawndal ei dalu gan rywun arall ar ran y person sy'n gyfrifol am y niwed i'r dioddefwr, gan gynnwys cwmnïau yswiriant.

### Materion o ran cymhwysedd y bu'r Llywydd yn eu hystyried

4. Mae'r mater cyntaf yn ymwneud ag adran 15 o'r Bil. Mae'r adran hon yn ymdrin â rhwymedigaeth yswirwyr i dalu'r taliadau newydd a gyflwynir gan y Bil. Mae Atodlen 7 i'r Ddeddf yn cynnwys eithriad i'r cymhwysedd deddfwriaethol sydd wedi'i ddrafftio fel a ganlyn: "Gwasanaethau ariannol, gan gynnwys...yswiriant". Nodir yr eithriad hwn o dan Bennawd 4, "Datblygu Economaidd", tra bo darpariaethau'r Bil yn ymwneud â Phynciau a restrir o dan Bennawd 9, sef "Iechyd a Gwasanaethau Iechyd". Fodd bynnag, mae eithriadau i'r cymhwysedd deddfwriaethol yn berthnasol yn yr un modd i bob Pwnc a restrir yn Atodlen 7.

5. Ar ôl pwyso a mesur, mae'r Llywydd o'r farn fod adran 15 yn dod o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol, oherwydd bod yr adran hon yn atodol i ddarpariaethau eraill y Bil, neu'n briodol er mwyn sicrhau bod y Bil yn gwbl effeithiol.

6. Mae'r ail fater yn ymwneud ag adran 17 o'r Bil. Mae'r adran hon yn nodi bod y Bil yn rhwymo'r Goron. O ganlyniad, bydd yn effeithio ar Adrannau Llywodraeth y DU. Mae'r cwestiwn yn codi ynghylch a fydd y Bil, wrth wneud hynny, yn addasu un o swyddogaethau Gweinidog y Goron, neu'n gosod swyddogaeth newydd ar Weinidog o'r fath, ynteu ai'r oll y bydd yn ei wneud yw creu rhwymedigaeth y bydd Gweinidogion o'r fath yn ddarostyngedig iddi mewn amgylchiadau penodol.

7. Mae paragraff 1 o Ran 2 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwahardd Bil rhag addasu swyddogaeth cyn-cychwyn Gweinidog y Goron. Swyddogaethau yw'r rhain y bu Gweinidog y Goron yn meddu arnynt ers cyn 5 Mawrth 2011. Mae'r paragraff hefyd yn gwahardd Bil rhag gosod swyddogaeth ar Weinidog y Goron. Fodd bynnag, gall Bil wneud unrhyw un o'r pethau hyn os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydsynio iddynt. Fel arall, gall Bil addasu swyddogaeth (ond ni all osod swyddogaeth) os bydd gwneud hynny yn atodol i ddarpariaeth ddilys arall yn y Bil, neu'n ganlyniad iddi.

8. Mae'r Llywydd o'r farn na ddylid ystyried bod adran 17 y tu allan i'r cymhwysedd deddfwriaethol, o gofio bod dadleuon credadwy sy'n nodi nad yw'n diwygio swyddogaeth Gweinidog y Goron nac yn gorfodi swyddogaeth newydd ar Weinidog o'r fath; neu, os yw'n diwygio swyddogaeth Gweinidog y Goron, fod y diwygiad yn atodol i ddarpariaethau eraill y Bil.

9. Mae'r trydydd mater yn ymwneud â p'un a yw adran 2, sef darpariaeth graidd y Bil, yn ymwneud yn ddigon agos ag un neu fwy o'r pynciau a restrir yn Atodlen 7 i'r Ddeddf.

10. Mae paragraff 4 o Ran 2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod pennawd 9 (Iechyd a gwasanaethau iechyd) yn Atodlen 7 i'r Ddeddf yn darparu'r cymhwysedd deddfwriaethol i ganiatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol basio'r Bil hwn. Y pynciau sy'n ymddangos o dan y pennawd hwnnw sydd o bosibl yn berthnasol i'r Bil yw:

> "Atal, trin a lleddfu afiechyd, salwch, anaf [ac] anabledd ... Darparu gwasanaethau iechyd … t[h]refnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol."

11. Mae'r penderfyniad ynghylch a yw darpariaeth Bil yn ymwneud â phwnc i'w wneud yn bennaf drwy gyfeirio at ddiben y ddarpariaeth.

12. Nid yw'r diben "Atal, trin a lleddfu afiechyd (ac ati)" yn cael ei nodi fel diben unrhyw rai o ddarpariaethau'r Bil. Mae'r un peth yn wir am y pwnc "darparu gwasanaethau iechyd".

13. Fodd bynnag, mae'r Llywydd o'r farn bod holl ddarpariaethau'r Bil, at ei gilydd, yn ymwneud â'r pwnc "t[h]refnu ac ariannu'r gwasanaeth iechyd gwladol". Mae hyn oherwydd mai diben adran 2, ac felly yr holl Fil, yw ad-dalu arian i Weinidogion Cymru - sy'n ariannu GIG Cymru - am y gost o ariannu rhai o wasanaethau'r GIG sy'n gysylltiedig ag asbestos. Mae hon yn berthynas ddigon agos â'r pwnc i ddod âg adran 2, ac felly'r holl Fil, o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol.

14. Wrth wneud ei phenderfyniad bod darpariaethau'r Bil yn dod o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol, bu i'r Llywydd hefyd ystyried yr holl brofion cymhwyso eraill a nodir yn y Ddeddf: a ydynt yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn; a ydynt yn gydnaws â chyfraith yr UE; a gaiff rhai deddfiadau eu gwarchod; a gaiff swydd y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ei gwarchod; a'r prawf sy'n nodi fod yn rhaid i'r Bil beidio â chael effaith waharddedig ar Gronfa Gyfunol Cymru. Roedd yn fodlon bod y Bil yn amlwg yn pasio'r holl brofion hyn.

15. Yn olaf, ystyriodd y Llywydd a fyddai angen cael cydsyniad Ei Mawrhydi y Frenhines a Dug Cernyw er mwyn i'r Cynulliad allu pasio'r Bil. Penderfynodd ei bod yn bosibl y bydd angen y cydsyniad hwn a gofynnwyd i'r Aelod sy'n gyfrifol fynd i'r afael â'r mater hwn cyn Cyfnod 3 y Bil. Nid yw hwn yn fater o gymhwysedd deddfwriaethol fel y cyfryw.